

Annwyl Syr / Madam

Yn dilyn anfon ein sylwadau yn ddiweddar anfonaf mwy o wybodaeth atoch parthed yr Urdd ym Môn.

Yn amgaeedig mae

1. Adroddiad Blynyddol Ynys Môn
2. Adroddiad Blynyddol Cymru
3. Polisi Iaith y Mudiad

Mae'r ddogfennaeth uchod yn dystiolaeth fod y Gymraeg yn fyw ac yn iach ym Môn, mae'n un o gadarnleoedd y Gymraeg ac mae'n hanfodol bwysig bod Horizon yn blaengynllunio'r ffaith fod cael mewnfudiad o bron i 10,000 o bobl yn symud yma am gyfnod o 10+ mlynedd yn ergyd i ni fel Mudiad o ran y Gymraeg.

Mae'r Gymraeg yn ffynnu ym Môn, gyda mudiadau megis yr Urdd yn gweithio'n galed er mwyn sicrhau dyfodol a pharhad i'n hiaith fel iaith gymunedol fyw. Mae'r gwaith yr ydym yn ei wneud gyda phlant a phobl ifanc (4-25 oed) yn cael ei amlinellu yn ar adroddiad blynyddol uchod. Rydym wedi gweld twf yn ein haelodaeth am y 6 mlynedd diwethaf, mwy a mwy o blant a phobl ifanc yn mwynhau'r Gymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth! Mae dros 3000 o aelodau ym Môn a dros 50,000 yn Genedlaethol.

Rydym yn cynnal gweithgareddau yn lleol ar yr ynys gan ddefnyddio adnoddau lleol yr Ynys, o ysgolion i ganolfannau hamdden a neuaddau pentref. Rydym yn credu mewn 'prynu'n lleol' er mwyn sicrhau fod ein gwariant yn aros ar yr ynys, gobeithio lle bosib y Bydd Horizon yn defnyddio cwmnïau a busnesau lleol ar gyfer prynu offer a nwyddau lle'n bosib.

Mae ein holl staff sydd yn gweithio ar yr Ynys yn byw ar yr ynys, pobl Môn yn gweithio dros Fôn. Gobeithion y bydd Horizon yn rhoi'r cyfleoedd gorau posib i drigolion Ynys Môn er budd ein Ynys ni a'n diwylliant ni.

Mae'n rhaid bod Horizon yn annog a chefnogi dysgwyr a mewnfudwyr i ddysgu am ddiwallant a threftadaeth yr Ynys ac mae'n hanfod eu bod yn cyflwyno cyrsiau ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r broses cyflwyno i'r gwaith. Dylai Horizon gynnig gwersi Cymraeg i bawb sydd yn dymuno ei ddysgu sydd yn gweithio ar y safle ynghyd a chefnogi Athrawon newydd yn ein canolfannau iaith Gynradd a hefyd cyllido Canolfan Iaith Uwchradd ar yr Ynys.

Mae croeso i chi gysylltu â mi am fwy o wybodaeth

Cofion

Urdd Gobaith Cymru



Urdd

Urdd Gobaith Cymru

Polisi Iaith Urdd Gobaith Cymru

Fersiwn 9

Cyhoeddwyd: Tachwedd 2017

POLISI IAITH URDD GOBAITH CYMRU

Cymraeg yw iaith swyddogol yr Urdd. Cynhelir ein holl weithgareddau yn y Gymraeg. Rydym yn ymwybodol fodd bynnag, nad yw pawb yng Nghymru yn ddwyieithog, ac mae angen ystyried pob sefyllfa pan fyddwn yn cyfathrebu â'n haelodau, a/neu eu rhieni a'n harweinyddion, neu unrhyw gynulleidfa arall yn enw Urdd Gobaith Cymru.

1. SEFYLLFAOEDD CYHOEDDUS

Cyffredinol

Os gwyddoch fod y gynulleidfa i gyd yn deall Cymraeg, yna dylid defnyddio'r Gymraeg yn unig i'w hannerch.

Os yw'r gynulleidfa'n cynnwys pobl nad ydynt yn medru'r Gymraeg, yna dylid naill ai sicrhau fod offer cyfieithu ar gael, neu annerch yn y Gymraeg yn gyntaf ac yna yn y Saesneg bob yn ail. Dylid rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg.

Dylid gwneud cyhoeddiadau sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch yn ddwyieithog.

Cystadlaethau Chwaraeon

Cymraeg yw'r brif iaith a ddefnyddir. Dylid rhoi geirfa yn cyfieithu'r prif eiriau a ddefnyddir yng nghyswllt y cystadlaethau dan sylw yn y rhaglen, neu ar bosteri. Dylid rhifo rasys yn glir yn y rhaglen ac ar safle'r gystadleuaeth. Gellir cyhoeddi yn ddwyieithog – ond dylid rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg bob amser.

Eisteddfodau

Ceir canllawiau clir a phendant ynglŷn â Rheol y Gymraeg yn y Rhestr Testunau. Y Gymraeg yn unig a ddefnyddir ar y llwyfan. Dylid cynnwys geirfa i gynorthwyo'r di-Gymraeg i ddeall y rhaglen. Mae rhestr geirfa ar gael o'r Swyddfa Ganolog yn Penhelyg, Llangrannog.

Pwyllgorau

Cynhelir holl bwyllgorau'r Urdd yn uniaith Gymraeg. Pe codai yr angen i gynnal pwyllgor yn ddwyieithog, yna dylid darparu dwy fersiwn o'r agenda a'r cofnodion, un fersiwn yn y Gymraeg ac un fersiwn yn ddwyieithog gan ddarparu offer cyfieithu ar-y-pryd os yn bosibl.

Disgos

Mewn disgos a gynhelir yn enw'r Urdd mae defnyddio cerddoriaeth offerynnol a chyfuniad o ieithoedd yn dderbrynol ond anogir y dylid sicrhau fod caneuon Cymraeg yn cael eu chwarae yn bennaf ym mhob disgos.

2. DEUNYDD YSGRIFENEDIG

Rhaid rhoi blaenoriaeth i'r Gymraeg ar bob deunydd ysgrifenedig dwyieithog.

i. Gweinyddol

- a. **Cymraeg yw iaith weinyddol Urdd Gobaith Cymru.**
- b. Mae Urdd Gobaith Cymru yn dymuno dylanwadu yn eang yng Nghymru a'r byd; felly defnyddir pa bynnag iaith/ieithoedd sy'n addas i dderbynwyr ein deunydd ysgrifenedig, gan anelu at hyrwyddo gwerthoedd a budd y mudiad yn ogystal â chyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan eraill. Yn y Gymraeg y dylid ysgrifennu at gyrrff cyhoeddus yng Nghymru ond gellir gohebu ag unigolion o fewn cyrff / sefydliadau / cwmnïau yn yr iaith sy'n arferol i'r berthynas neu yn ddwyieithog.
- c. Pe gofynnid am ddeunydd yn ddwyieithog gan ganghennau dylid gohebu â nhw yn ddwyieithog.
Ni ddylid anfon deunydd uniaith Saesneg i ganghennau'r Urdd.
- ch. Mae pob datganiad i'r wasg a ryddheir gan yr Urdd yn ddwyieithog.

ii. Posteri

Dylid cynhyrchu poster neu daflenni yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn cael eu harddangos ar yr un ochr i'r ddalen.

iii. Cyhoeddiadau'r Urdd

Cyhoeddir pob cyhoeddiad yn y Gymraeg. Ychwanegir atodiadau Saesneg i'r cyhoeddiadau lle profir yr angen.

Cyhoeddir Adolygiad Blynyddol a dogfennau polisi cenedlaethol, os dymunir dylanwadu yn eang, yn ddwyieithog.

iv. Ffurflenni/Hysbysebion

Darperir y rhain yn uniaith Gymraeg, neu'n ddwyieithog pe bai angen gan roi blaenoriaeth i'r Gymraeg, neu gan roi geirfa/esboniad ar waelod y ffurflen / hysbyseb Gymraeg.

v. Cardiau Aelodaeth

Argreffir holl gardiau aelodaeth Urdd Gobaith Cymru yn uniaith Gymraeg.

3. Y WE

Mae fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg ar gael o'r wefan.

4. CYFRYNGAU CYMDEITHASOL

Polisi'r Urdd yw gosod y mwyafrif o'n negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg yn unig.

- a. dro i dro, bydd rheswm dros rhoi negeseuon yn ddwyieithog. Os digwydd hyn, mae modd rhoi y neges yn ddwyieithog ar *facebook*.
- b. Dylai negeseuon *trydar* fod naill ai yn Gymraeg neu yn ddwyieithog. Ni ddylid *trydar* yn Saesneg yn unig.

- c. Dylid osgoi anfon negeseuon uniaith Saesneg gan rhywun arall ymlaen ar *trydar*, heblaw pan eu bod gan rhywun dylanwadol, neu yn neges arbennig o wych.

5. ARDDANGOSFEYDD/ARWYDDION

Bydd arddangosfeydd yr Urdd yn uniaith Gymraeg neu'n ddwyieithog gan roi blaenoriaeth i'r Gymraeg.

6. HYSBYSEBION


- a. **Swyddi** – Dylid hysbysebu pob swydd sy'n ymddangos yn enw'r Urdd yn uniaith Gymraeg, gyda brawddeg ar waelod yr hysbyseb yn y Saesneg i egluro beth yw'r swydd a bod y Gymraeg yn gymhwyster hanfodol ar gyfer ei chyflawni.
- b. **Cyffredinol** – Dylai unrhyw hysbyseb yn enw'r Urdd fod naill ai'n uniaith Gymraeg, neu'n ddwyieithog, neu'n uniaith Gymraeg gyda brawddeg ar y gwaelod yn y Saesneg yn egluro'r cynnwys.
- c. **Teledu a Radio** – Ar y cyfryngau Cymraeg dylai hysbysebion am yr Urdd fod yn uniaith Gymraeg neu'n uniaith Gymraeg gydag is-deitlau Saesneg. Gellir caniatáu hysbysebu yn ddwyieithog ar gyfryngau eraill. Dylid cofio nad oes rhaid dweud yr un peth yn y ddwy iaith.

Polisi Iaith

Fersiwn 9

Tachwedd 2017

Arwyddwyd



Mai Parry Roberts

Prif Weithredwr Dros Dro

POLISI IAITH URDD GOBAITH CYMRU

ATODIAD I AELODAU STAFF YR URDD

Dyma restr fanylach o'r cyhoeddiadau a.y.y.b sydd ar gael, er gwybodaeth i staff yr Urdd.

i. CYHOEDDIADAU

a. **Rhestr Testunau Eisteddfod yr Urdd**

Cyhoeddir y rhestr testunau'n uniaith Gymraeg ac mae atodiad Saesneg ar gael os gofynnir am un gan y Swyddog Datblygu lleol, neu Adran yr Eisteddfod. Dylid sicrhau bod y fersiwn Saesneg ar gael yr un pryd â'r fersiwn Gymraeg.

Dylid hefyd ystyried darparu rhestr testunau yn y dyfodol yn yr un modd â Rhaglen y Dydd (gweler c. isod).

b. **Rhaglen y Dydd yr Eisteddfod**

Cynhyrchir y llyfryn uchod gyda'r rhan fwyaf o'r testun yn y Gymraeg gyda chrynodeb Saesneg.

c. **Cylchgronau'r Urdd**

Cynhyrchir 10 rhifyn uniaith Gymraeg o **Cip, Bore Da a iaw!** dros gyfnod o flwyddyn. Mae i'r cylchgronau bwrpas arbennig, sef annog siaradwyr Cymraeg a dysgwyr y Gymraeg i fwynhau darllen deunydd bywiog yn y Gymraeg. Cynhyrchir taflen athrawon **iaw!** yn uniaith Gymraeg, a thaflen athrawon **Bore Da** yn ddwyieithog.

ii. FFURFLENNI

a. **Ffurflenni Chwaraeon**

Dylid cael dwy fersiwn o bob ffurflen, un fersiwn Gymraeg i'r canghennau sy'n dymuno derbyn gohebiaeth uniaith Gymraeg, a fersiwn ddwyieithog i'r canghennau hynny sy'n dymuno deunydd yn ddwyieithog. **Ni ddylid anfon deunydd uniaith Saesneg i ganghennau'r Urdd.**

b. **Ffurflenni Eisteddfodol**

Cynhyrchir holl ffurflenni cystadlu'r Eisteddfod yn uniaith Gymraeg, ond mae fersiynau dwyieithog ar gael gan y Swyddogion Datblygu i'w dosbarthu yn ôl yr angen.

Dylid ystyried darparu fersiwn dwyieithog i unrhyw gangen sy'n dymuno hynny.

iii. Ffurflenni Cofrestru

Mae ffurflenni cofrestru Cymraeg a ffurflenni cofrestru dwyieithog ar gael.

a. **Ffurflenni lechyd**

Mae ffurflenni hyn yn ddwyieithog bob amser.

b. **Ffurflenni Archebu Tocynnau ymlaen llaw i'r Eisteddfod**

Fersiynau uniaith Gymraeg sydd ar gael o'r ffurflenni yma ar hyn o bryd. Dylid cael fersiwn Gymraeg a fersiwn ddwyieithog i'w dosbarthu yn ôl yr angen.

Felly, i gloi: dylid cael dwy fersiwn o bob ffurflen a gyhoeddir yn enw'r Urdd, un yn uniaith Gymraeg i'r canghennau sy'n dymuno gohebiaeth uniaith Gymraeg, a fersiwn ddwyieithog (y ddwy iaith i ymddangos ar yr un ochr i'r ddalen) i ganghennau sy'n dymuno derbyn gohebiaeth yn ddwyieithog.